WGOS
# CYLCHLYTHYR

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*Rhifyn 9, Ionawr 2024*

## Croeso


Bydd y Cylchlythyrau WGOS yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd… **rydym yma i'ch cefnogi chi.**

Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, a bydd pob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.



## Bydd cylchlythyr #9 yn canolbwyntio ar WGOS 3: Golwg Gwan

- Mae cyflwyniad graddol o'r Porth Rhannu Ffeiliau Diogel (SFSP) wedi dechrau. Bydd hyn yn galluogi Ymarferwyr i gyflwyno dogfennaeth golwg gwan i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn electronig. Cysylltir ag Ymarferwyr maes o law i drefnu i chi gael mynediad at y porth SFSP. Fodd bynnag, os byddwch yn colli eich cyfleuster ffacs cyn hyn, anfonwch neges at y tîm golwg gwan i: low.vision@wales.nhs.uk.
- Mae llawlyfr clinigol WGOS 3 ac adnoddau ategol ar gael ar wefan Gofal Llygaid Cymru yma.
- Defnyddiwch gerdyn cofnod newydd WGOS 3:LV ar gyfer asesiadau llawn ac asesiadau dilynol.



# **WGOS Lefel 3 -** Cofiwch am y canlynol

- WGOS 3: Rhaid i gardiau cofnod Golwg Gwan (LV) nawr gael eu llofnodi gan yr Ymarferydd a'r claf/cynrychiolydd.
- Rhaid nodi "Dyddiad y Prawf Golwg".
- Peidiwch ag anfon nodiadau dosbarthu i PCGC. Cadwch nhw ar gyfer eich cofnodion eich hun.
- Gwnewch yn siŵr fod dull cyfathrebu dewisol y claf yn cael ei nodi ar y cerdyn cofnod.
- Rhowch fanylion mewn asesiad llawn am yr holl gymhorthion golwg gwan a ddangoswyd i'r claf a thiciwch os hoffech archebu'r cymorth. Yn dilyn yr asesiad, os yw'r claf yn dymuno archebu cymhorthion ychwanegol a gafodd eu treialu, gallwch anfon neges at y tîm Golwg Gwan i: low.vision@wales.nhs.uk i ofyn iddynt archebu'r cymhorthion ychwanegol hyn. Cyn belled â bod y cymhorthion y mae'r claf wedi gofyn amdanynt wedi'u nodi ar y cerdyn cofnodi asesiad llawn, nid oes angen cyflwyno unrhyw waith papur ychwanegol.

## Cwestiynau allweddol

? Ydw i'n gontractwr, yn optometrydd neu'n optegydd cyflenwi sy'n gweithio yng Nghymru?

- Os mai ***'ydw'*** yw eich ateb i'r uchod, cofiwch am y pwyntiau canlynol wrth ddarparu gwasanaethau WGOS 3: Golwg Gwan.
- Os mai ***'na'*** yw eich ateb, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

## Crynodeb

### Beth?

Cofiwch am y pwyntiau uchod.

### Pryd?

Bob dydd wrth ddarparu gwasanaeth WGOS 3: Golwg Gwan

### Sut?

Mae llawlyfr clinigol WGOS 3 a dogfennaeth ategol ar gael yma.

## Cadwch mewn cysylltiad!

Optometreg Cymru (OW) yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

Ebost: Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Mae diweddariadau blaenorol i'w gweld yn: https://www.nhs.wales/sa/eye-care-wales/professionals/latest-news-for-professionals/wgos-newsletters/